Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Heol-Y-Celyn
# Holly Street
# Rhydyfelin
# Pontypridd
# Rhondda Cynon Taf
# CF37 5DB

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Heol-Y-Celyn yn Ysgol Gynradd Gymunedol sydd wedi ei lleoli yn Rhydfelin, Pontypridd. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed naill ai drwy gyfrwng y Saesneg neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 15 o ddosbarthiadau yn yr ysgol. Mewn chwech dosbarth, gan gynnwys y dosbarth meithrin, Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr addysgu, tra addysgir y naw dosbarth sy'n weddill trwy gyfrwng y Saesneg. Mae yna ddosbarth anghenion arbennig y sir yn yr ysgol a hefyd dosbarth magwraeth yn Y Cyfnod Sylfaen.

Mae 367 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 61 o blant yn y feithrinfa. Ar hyn o bryd, mae gan oddeutu 43% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae oddeutu 39% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol sydd yn uwch na'r canran cenedlaethol. Gwyn Prydeinig yw ethnigrwydd bron pob disgybl. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle mae Saesneg yn brif iaith y cartref.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2008. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Chwefror 2004.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Heol Y Celyn yn 2013-2014 yw £3,317 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £7,033 a'r lleiafswm yw £2,659. Mae Ysgol Heol Y Celyn yn safle 74ain o'r 110 o ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda mewn gwersi;
- bod iechyd a lles y disgyblion yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol; a
- bod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Fodd bynnag:

- nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ar draws yr ysgol mewn agweddau ar lythrennedd yn cynnwys Cymraeg ail iaith;
- mae diffyg manyldeb yn y cynllunio i sicrhau bod y gwaith bob amser yn darparu her briodol i ddisgyblion o lefelau gallu gwahanol mewn dosbarth, yn enwedig disgyblion o allu uwch; ac
- nid yw'r marcio yn gwneud digon i ddangos i'r disgyblion yr hyn i'w wneud i wella safon eu gwaith.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd bod:

- arweinwyr wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar lefelau presenoldeb a safonau ymddygiad yr ysgol;
- gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau;
- adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen fanwl sy'n cynnig sylwadau arfarnol ar ystod briodol o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol; a bod
- partneriaethau gyda rhieni yn dda.

Fodd bynnag:

- nid yw arweinwyr hyd yma wedi gwneud digon i fynd i'r afael ag anghysondeb mewn addysgu ac asesu;
- nid yw'r corff llywodraethol eto'n herio digon ar berfformiad yr ysgol;
- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig darlun digon cywir o'r sefyllfa bresennol; ac
- nid yw'r cynllun datblygu yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth yn deillio o systemau monitro'r ysgol.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu'r disgyblion yn y ddwy iaith ar draws yr ysgol

A2 Codi safonau yn y Gymraeg a Chymraeg ail iaith ar draws yr ysgol

A3 Gwella cyflawniadau disgyblion gallu uwch ar ddiwedd y ddau gyfnod

A4 Sicrhau gwell cysondeb yn ansawdd yr addysgu ac asesu ar draws yr ysgol

A5 Datblygu rôl y llywodraethwyr ymhellach i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad

A6 Cryfhau y cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun datblygu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion islaw'r disgwyl ymhob deilliant. Serch hynny, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r hyn maent wedi'i ddysgu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl yn briodol, yn caffael gwybodaeth yn bwrpasol ac yn cymhwyso'r rhain yn addas mewn sawl pwnc. Er bod mwyafrif o'r disgyblion yn cyflawni gwaith o safon briodol mewn gwersi ac mewn llyfrau, mae gormod o anghysondeb yn y safonau trwy'r ysgol, yn enwedig mewn Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith ar draws yr ysgol. Mae hefyd gormod o amrywiad mewn safonau o fewn gwersi a llyfrau rhwng dosbarthiadau.

Mae llawer o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau a gytunwyd iddynt. Serch hynny, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent yn y mwyafrif o wersi.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar y disgyblion yn datblygu'n fuan. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n dda yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae llawer hefyd yn ymateb yn hyderus i gyfarwyddiadau'r athrawon. Mae hyn yn datblygu'n ymhellach yng nghyfnod allweddol 2, gyda llawer yn siarad yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae llawer yn cymhwyso eu medrau llefaredd yn llwyddiannus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda mynegiant gan ddefnyddio strategaethau darllen ffonig yn dda wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall mwyafrif o ddisgyblion drafod cynnwys yn ystyrlon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau y maent yn eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau darllen yn briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae eu dealltwriaeth o ddarllen yn datblygu'n dda. Mae'r mwyafrif yn defnyddio uwch fedrau darllen yn llwyddiannus i gaffael gwybodaeth benodol o destun. Mae'r goreuon yn trafod ystod o ddeunydd darllen yn aeddfed gan fynegi barn am eu hoff awduron. Fodd bynnag, prin yw cynnydd medrau darllen disgyblion Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2. Nid yw gallu disgyblion hŷn i ddarllen gyda dealltwriaeth ac i drafod cynnwys eu llyfrau wedi ei lawn ddatblygu.

Mae mwyafrif o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn briodol ar draws y cwricwlwm. Serch hynny, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu yn estynedig. Mae disgyblion yn parhau i wneud cynnydd priodol trwy gyfnod allweddol

2, lle mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n gywir yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig yn y ddwy iaith wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith mwyafrif o ddisgyblion yn anniben ar draws yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif yn briodol yn eu gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ymdrin â phatrymau rhif trwy stori Arch Noa. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio'u medrau rhifedd ar y lefel briodol mewn gwyddoniaeth, er enghraifft trin data wrth gofnodi canlyniadau gwahanol fathau o ddeunyddiau ailgylchu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni gwaith mathemateg ar lefel briodol yn unol â'u hoed a'u gallu. Maent yn cwblhau amrywiaeth dda ac eang o waith pwrpasol. Fodd bynnag, prin iawn yw'r esiamplau gan ddisgyblion, yn cynnwys y rhai mwy galluog, o gymhwyso medrau rhifedd i feysydd a phynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddynt yn gallu ymateb i gyfarwyddiadau syml yn addas. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen ac ysgrifennu llawer o'r disgyblion wedi datblygu digon.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae safonau disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig, sef deilliant 5, yn gyffredinol is na chyfartaledd ysgolion y teulu. O gymharu ag ysgolion eraill tebyg o safbwynt nifer â hawl i ginio am ddim, mae'r canlyniadau'n uwch na rhai 2012 mewn llythrennedd Saesneg. Fodd bynnag, mae cyflawniad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig wedi disgyn i'r 50% is mewn mathemateg, yn y 50% uwch ar gyfer llythrennedd Cymraeg ond wedi codi i'r 50% uwch mewn llythrennedd Saesneg. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae safonau disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 50% is ar gyfer llythrennedd a 25% isaf ar gyfer mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau disgyblion ar lefel 4 yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu ymhob pwnc craidd. Mae canlyniadau diweddar yn gosod yr ysgol yn y 50% is mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, fodd bynnag, mae safonau disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 50% is mewn Cymraeg a'r 25% isaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac maent yn cyflawni'n gyson dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni. Maent yn gwybod sut y gallant gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol ac ymarfer eu cyrff trwy wersi a gweithgareddau ymarfer corff.

Mae llawer o'r disgyblion yn frwdfrydig, yn awyddus i ddysgu ac yn dangos dyfalbarhad yn eu gwaith. Maent hefyd yn cydweithio'n llwyddianus gyda'i gilydd yn eu gwersi. Fodd bynnag, nid yw eu medrau i wella eu dysgu eu hunain wedi datblygu digon. Mae safonau ymddygiad disgyblion yn dda mewn gwersi ac ar draws yr ysgol. Maent yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio ac yn gwrtais wrth ymateb i oedolion a chyfoedion. Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn groesawgar a chwrtais ac maent yn ofalus o'i gilydd.

Dros amser, mae canran presenoldeb disgyblion wedi bod yn is nag mewn ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion â hawl i ginio am ddim. Erbyn hyn, mae presenoldeb wedi gwella ac mae'r ysgol bellach yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

Mae'r cyngor ysgol yn weithgar a'r aelodau yn mwynhau ysgwyddo cyfrifoldebau. Maent yn dangos dealltwriaeth o'u rôl a gwelir tystiolaeth o'u penderfyniadau yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud gwahaniaeth.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu da i'r holl ddisgyblion. Mae'r profiadau hyn yn cyfoethogi eu haddysg ac yn ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Darperir profiadau cyfoethog ac ysgogol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Adeiladir ar hyn yn llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn diwallu anghenion pob dysgwr gan gynnwys cynnig digon o her i ddisgyblion o allu uwch.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio rhaglenni cynhwysfawr, ond nid oes digon o gysondeb yn ansawdd y cynlluniau ar draws yr ysgol. Lle mae'r cynllunio'n drylwyr, ceir gwerthusiadau manwl sy'n dylanwadu ar gam nesaf y cynllunio yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn ychydig o gynlluniau, mae'r gwerthusiadau'n brin ac yn arwynebol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu a chymhwyso medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wedi ei chynllunio'n briodol. Er hynny, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu medrau rhifedd ac ysgrifennu ar draws ystod o bynciau. Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i fedrau creadigol ar draws y cwricwlwm.

Mae ystod dda o weithgareddau all-gwricwlaidd ar gael i'r disgyblion sydd yn cyfoethogi profiadau ac ehangu cyfleoedd. Mae rhain yn cyfrannu at eu datblygiad diwylliannol a chorfforol yn llwyddiannus.

Mae'r cynllunio ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn datblygu'n briodol drwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau Cymraeg ail iaith, yn enwedig medrau darllen a ysgrifennu. Cyfoethogir profiadau dysgu drwy ymweliadau i leoedd allanol sydd yn cysylltu'n effeithiol â gwaith y disgyblion mewn pynciau fel hanes a daearyddiaeth. Mae brwdfrydedd y pwyllgor eco yn sicrhau bod egwyddorion megis ailgylchu ac arbed ynni yn datblygu'n rhan annatod o fywyd ysgol. Maent yn cydweithio'n agos gyda rhieni i gynnal dwy ardd ar safle'r ysgol. Mae'r ysgol wedi creu cysylltiadau agos iawn gydag ysgol yn Uganda, a thrwy rannu gwybodaeth mae'r disgyblion yn llwyddo i ddatblygu ymwybyddiaeth dda o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn modelu iaith dda ac yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol.

Mewn mwyafrif o'r gwersi, mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda, mae'r cyflwyniadau'n fywiog ac maent yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau addas sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae perthynas waith dda gyda disgyblion ac mae cyflymdra'r gwersi yn addas.

Mewn lleiafrif o wersi, lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r tasgau'n herio disgyblion o allu uwch nac yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn holi cwestiynau agored sy'n annog disgyblion i feddwl ac ymresymu a gwella eu dealltwriaeth o'r gwaith. Mae gorddefnydd o dasgau ysgrifennu isel eu her a thaflenni gwaith sy'n rhwystro gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig ac i gyflawni cystal ag y gallent.

Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at weithredu'r rhaglenni ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff cynorthwyol yn rhoi adborth llafar adeiladol, sy'n dathlu ymdrech yn briodol. Mae'r marcio mewn llawer o ddosbarthiadau yn fuddiol ac yn fanwl. Yn y lleiafrif o achosion lle mae'r marcio yn fwyaf effeithiol, mae'r sylwadau yn cyfeirio'n uniongyrchol at y meini prawf llwyddiant ac yn sicrhau bod y disgyblion yn deall y camau nesaf i'w cymryd er mwyn gwneud cynnydd. Enghraifft o hyn yw y llyfrau 'Sgwennu Swmpus'. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws y cwricwlwm nac ar draws yr ysgol.

Nid yw strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu cynnydd eu hunain ac eraill yn gyfyngedig, a phrin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion drafod eu meini prawf llwyddiant yn ystod gwersi.

Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Defnyddir system dracio electronig i dracio cynnydd pob un plentyn yn ofalus. Gwneir defnydd addas ac effeithiol o'r data er mwyn cynllunio strategaethau ymyrraeth priodol.

Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd a chyflawniadau eu plant. Mae'r adroddiad blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol a manwl ac yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amryw o gyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd priodol i fyfyrio mewn gwasanaethau ysgol ac mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae addysg bersonol a chymdeithasol yn agwedd amlwg o fywyd yr ysgol ac mae cynlluniau wedi eu mabwysiadu ar gyfer gwella lles ac ymddygiad disgyblion. Mae'r rhain yn cael effaith bositif ar safonau moesol a chymdeithasol y disgyblion.

Drwy fuddsoddi mewn adnoddau ychwanegol ac adolygu trefniadau yn drylwyr, mae'r ysgol wedi gwella cyfraddau presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol dros y ddwy flynedd diwethaf.

Gwneir defnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, gan gynnwys y gwasanaethau seicolegydd addysg, therapydd iaith, heddlu, nyrs a gweithwyr cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, mae'r ysgol wedi hyfforddi aelod o staff ar gyfer cynnig gwasanaeth cwnsela yn fewnol i'r disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn cwrdd â gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn llwyddo i adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar iawn trwy gynnal profion cyson a thrafodaethau gyda staff. Mae pob un o'r disgyblion hyn yn derbyn rhaglen addas sy'n cael ei hadolygu dair gwaith y flwyddyn. Mae targedau priodol yn cael eu gosod sy'n sicrhau eu bod yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu datblygiad.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu'r awyrgylch croesawgar a hapus. Ceir awyrgylch cyfeillgar ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae pob disgybl yn cael hawl gyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol ac mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Datblygir agweddau goddefgarwch yn dda gan sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn rhydd oddi wrth aflonyddwch.

Mae'r ysgol ar safle braf gydag adnoddau allanol da. Mae'r staff yn gwneud defnydd priodol o'r gofod sydd ar gael ac mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau yn addas ac yn adlewyrchu gweithgareddau ehangach yr ysgol yn bwrpasol. Mae cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion.

Mae'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio'n greadigol i hybu'r dysgu. Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal a'u cadw'n briodol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr ysgol nodau priodol ar gyfer ei datblygiad, sy'n cysylltu'n glir â'r blaenoriaethau cenedlaethol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol hefyd yn rhoi sylw helaeth i ddiwallu anghenion disgyblion bregus. Mae effaith arweinyddiaeth i'w gweld yn y patrwm o welliant arwyddocaol yn lefelau presenoldeb a safonau ymddygiad yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinyddiaeth hyd yma wedi gwneud digon i fynd i'r afael â'r anghysondeb mewn addysgu a'r angen i wella cyflawniadau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol strwythur rheoli addas, gyda chyfrifoldebau am arwain agweddau ysgol gyfan wedi eu rhannu yn briodol. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac maent yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddatblygu agweddau ar y ddarpariaeth. Mae amserlen benodol yn nodi amseroedd ar gyfer cyfarfodydd staff a digwyddiadau eraill yn gysylltiedig â materion ysgol gyfan. Mae materion yn deillio o weithgarwch gwella ansawdd yn cael eu trafod yn rheolaidd yn y cyfarfodydd staff cyfan a'r cyfarfodydd adrannol.

Mae gwybodaeth fanwl gan y llywodraethwyr am nifer o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn derbyn adroddiadau ar ystod o faterion, yn cynnwys data perfformiad ac adroddiadau monitro yn dilyn ymweliadau gan swyddogion yr awdurdod lleol. Mae cynrychiolwyr o'r corff yn cyfranogi yn yr is-grwpiau sy'n gysylltiedig â llunio adroddiad hunanarfarnu'r ysgol. Er hynny, nid oes gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth ddigon cywir o berfformiad yr ysgol dros gyfnod, yn enwedig o'i chymharu ag ysgolion tebyg. O ganlyniad, nid ydynt yn herio perfformiad yr ysgol a gweithredu'n llawn fel cyfeillion beirniadol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod briodol o ffynonellau i gasglu tystiolaeth fel rhan o'r trefniadau gwella ansawdd. Mae hyn yn cynnwys cynnal archwiliadau llyfrau yn rheolaidd ac ymweld â gwersi i fonitro'r dysgu a'r addysgu. Mae'r ysgol hefyd yn gwneud defnydd priodol o holiaduron i gasglu safbwyntiau disgyblion a rhieni. Er hynny, nid oes rhaglen fanwl i gydlynu'r trefniadau gwella ansawdd dros amser.

Yn gyffredinol, mae cofnodion yn deillio o graffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi yn rhoi darlun clir ac arfarnol, gyda'r cofnodion arsylwi yn rhoi sylw penodol i safonau a chynnydd y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r arfer o lunio adroddiadau dilynol sy'n crynhoi'r deilliannau monitro wedi ei sefydlu yn gyson ar draws yr ysgol. Mae trefniadau priodol i roi cefnogaeth ddilynol yn ôl yr angen ar sail arsylwadau gwersi.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen fanwl sy'n cynnig sylwadau arfarnol ar ystod briodol o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'n cynnwys dadansoddiadau manwl o ddata perfformiad, ac yn nodi rhai blaenoriaethau i'w cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol. Er hynny, nid yw'r adroddiad yn cynnig darlun digon cywir o'r sefyllfa bresennol nac yn gwneud digon i nodi'r mannau lle mae angen gwelliant o ran safonau ac agweddau ar addysgu ac asesu.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys strategaethau priodol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau sydd wedi eu cynnwys, ac yn gwneud defnydd priodol o dargedau meintiol heriol i fesur cynnydd. Er hynny, nid yw'r cynllun datblygu yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth yn deillio o systemau monitro'r ysgol nac yn blaenoriaethu materion pwysig eraill lle mae angen gwelliant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni yn dda. Maent yn cyfranogi drwy gynorthwyo gyda clybiau ar ôl ysgol, er enghraifft, clwb chwaraeon a darllen. Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion, er enghraifft ymweliadau â'r deintydd ac ymweliadau cerddorol.

Ceir partneriaethau da gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r gydberthynas gydag asiantaethau megis y gwasanaethau gofal, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol iawn ac yn cyfoethogi dysgu a lles disgyblion. Mae'r archfarchnad leol yn cydweithio'n agos ac yn llwyddiannus gyda'r ysgol i hybu presenoldeb disgyblion.

Mae partneriaeth dda yn bodoli gyda’r ysgolion uwchradd lleol ac mae’r trefniadau pontio effeithiol yn sicrhau trosglwyddo esmwyth i’r cyfnod nesaf yn addysg disgyblion. Mae staff yr ysgol yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd y dalgylch sy’n sicrhau cyfleoedd buddiol i gyd-safoni a chymedroli asesiadau athrawon.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon â chymwysterau priodol i gyflwyno’r cwricwlwm. Mae’n darparu cynhaliaeth briodol lle mae staff yn addysgu y tu allan i’w harbenigeddau. Fodd bynnag, nid yw’n manteisio’n llawn ar arbenigedd athrawon y ffrwd Gymraeg i ymestyn disgyblion sy’n dysgu’r Gymraeg fel ail iaith. Gwna’r ysgol ddefnydd effeithiol o gynorthwywyr dysgu a staff eraill ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a staff ategol. Mae arsylwadau yn cael eu defnyddio i osod nodau datblygu priodol sy’n cael eu hadolygu yn rheolaidd ac yn arwain at gynhaliaeth neu hyfforddiant addas. Mae cyfleoedd defnyddiol i staff elwa o arsylwi cymheiriaid, yn yr ysgol ac mewn ysgolion eraill. Mae’r ysgol yn cydweithio gydag ysgolion eraill ar brosiectau yn gysylltiedig â mathemateg a darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog. Fodd bynnag, nid yw’r cydweithio ar brosiectau penodol o fewn yr ysgol wedi datblygu i’r un graddau.

Mae staff â chyfrifoldebau arwain yn derbyn amser digyswllt priodol i gyflawni eu dyletswyddau rheolaethol.

Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus i sicrhau nad oes gorwariant ac yn gwneud defnydd priodol o arian wrth gefn i ddiwallu anghenion yr ysgol. Mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd, iaith a chyfathrebu Cymraeg ac mewn datblygiad mathemateg yn is na chyfartaledd ysgolion eraill y teulu ac yn genedlaethol ac eithrio llythrennedd, iaith a chyfathrebu Saesneg. Mae canlyniadau 2013 yn uwch na'r rhai yn 2012 mewn Saesneg. Mewn datblygiad llythrennedd, a iaith a chyfathrebu Saesneg, mae cyflawniad disgyblion ar y lefel a ddisgwylir wedi codi o’r 25% isaf i’r 50% uwch, o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim. Mae cyflawniad disgyblion mewn llythrennedd, iaith a chyfathrebu Cymraeg wedi disgyn o’r 25% uchaf i’r 50% uwch a mathemateg wedi disgyn i’r 50% is.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd deilliant 6 mewn llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn y ddwy iaith, datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, yn sylweddol is na chyfartaledd y teulu. Mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol ar y lefel uwch, mae cyflawniad y disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 50% is yn 2012 a’r 25% isaf yn 2013. Mewn llythrennedd, iaith a chyfathrebu, mae’r ysgol yn y 50% is.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, mae canran y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae’r ysgol wedi bod yn y 50% is mewn gwyddoniaeth am y pedair mlynedd ddiwethaf. Mae’r dangosydd pwnc craidd wedi bod rhwng y 50% is a’r 25% isaf am y pedair mlynedd diwethaf. Mewn Cymraeg a Saesneg, mae'r ysgol wedi bod rhwng y 50% is a 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi amrywio, rhwng y 50% uwch a'r 50% is.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion oedd wedi cyflawni’r lefel uwch (sef lefel 5) yn 2013 yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru ymhob pwnc craidd. Mae perfformiad disgyblion wedi amrywio. Mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae’r canran wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru am y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol ar lefel 4 wedi bod yn y 50% is dros y pedair blynedd ddiwethaf ymhob pwnc ac eithrio mathemateg yn 2011, lle bu yn y 50% uwch. Mae canlyniadau’r ysgol mewn Cymraeg a Saesneg wedi gwella o’r 25% isaf yn 2012 i'r 50% is yn 2013.

Yn y Cyfnod Sylfaen, merched sy’n cyflawni'n well na’r bechgyn mewn iaith, a’r bechgyn yn llawer gwell na’r merched mewn mathemateg. Er bod amrywiadau yn y garfan dros amser, mae merched yn cyflawni’n well yng nghyfnod allweddol 2 ym mhob maes. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 128 | 125<br>98%<br>98% | 3<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 128 | 98<br>77%<br>92% | 30<br>23%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 128 | 113<br>88%<br>96% | 15<br>12%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 127 | 114<br>90%<br>97% | 13<br>10%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 128 | 112<br>88%<br>96% | 16<br>12%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 128 | 114<br>89%<br>96% | 14<br>11%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 128 | 124<br>97%<br>99% | 4<br>3%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 128 | 123<br>96%<br>98% | 5<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 128 | 102<br>80%<br>91% | 26<br>20%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 128 | 106<br>83%<br>95% | 22<br>17%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 128 | 50<br>39%<br>77% | 78<br>61%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 127 | 53<br>42%<br>84% | 74<br>58%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 36 | 12 | 16 | 6 | 1 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 33% | 44% | 17% | 3% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 37 | 20 | 17 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 54% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 37 | 22 | 13 | 2 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 59% | 35% | 5% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 35 | 19 | 13 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 54% | 37% | 9% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 37 | 5 | 24 | 6 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 14% | 65% | 16% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 36 | 15 | 17 | 3 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 42% | 47% | 8% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 37 | 18 | 19 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 49% | 51% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 35 | 11 | 18 | 3 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 51% | 9% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 36 | 11 | 19 | 3 | 1 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 31% | 53% | 8% | 3% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 37 | 15 | 19 | 3 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 41% | 51% | 8% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 37 | 15 | 20 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 41% | 54% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 37 | 17 | 12 | 2 | 3 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 46% | 32% | 5% | 8% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 37 | 18 | 13 | 5 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 35% | 14% | 3% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 37 | 18<br>49% | 15<br>41% | 3<br>8% | 1<br>3% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 37 | 13<br>35% | 14<br>38% | 4<br>11% | 4<br>11% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 37 | 15<br>41% | 20<br>54% | 1<br>3% | 1<br>3% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 35 | 13<br>37% | 13<br>37% | 2<br>6% | 2<br>6% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 36 | 12<br>33% | 18<br>50% | 3<br>8% | 1<br>3% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 36 | 8<br>22% | 17<br>47% | 6<br>17% | 3<br>8% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Meinir Howells | Arolygydd Cofnodol |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| David Bundock | Arolygydd Cysgod |
| Gwenda Easton | Arolygydd Cymheiriaid |
| Delyth Kirkman | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alun Rees | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.